# *THE MACHINE* (James, 2013)
## Cynhyrchu – Genre

## Gweithio yn y Diwydiant Ffilm

**Y cyfarwyddwr Caradog W. James a'r cynhyrchydd John Giwa-Amu sy'n gyfrifol am y ffilm ffuglen wyddonol boblogaidd, *The Machine*. Roedd ganddi gyllideb isel o £1m, a'r sêr Toby Stephens a Caity Lotz sy'n chwarae'r prif rannau. Yma, mae'r gwneuthurwyr ffilm yn siarad am agweddau gwahanol ar gynhyrchu, dosbarthu ac arddangos eu ffilm.**

**Mae cwestiynau a thasgau wedi cael eu creu i arwain myfyrwyr trwy bum prif ran y cyfweliad a gafodd ei ffilmio. Gallwch chi wylio'r cyfweliad cyfan hefyd (tua 45 munud).**

## Tasg 1

**Ar sail eu profiadau nhw, mae'n debyg bod y cyfarwyddwr Caradog W. James a'r cynhyrchydd John Giwa-Amu yn awgrymu bod genre yn bwysig hyd yn oed i ffilm annibynnol, cyllideb isel.**

**Wrth i chi wylio'r rhan hon o'r cyfweliad, gwnewch nodiadau cyn trafod y canlynol mewn parau:**

- **Esboniwch pam mae'r gwneuthurwyr ffilm yn credu y dylai ffilm annibynnol, cyllideb isel, fod yn ffilm genre?**
- **Pam rydych chi'n credu bod genres yn bwysig (a) i'r diwydiant ffilm (b) i wneuthurwyr ffilm ac (c) i gynulleidfaoedd?**
- **Ydych chi'n credu bod genres yn bwysicach i'r diwydiant ffilm nac i gynulleidfaoedd?**
- **Yn eich barn chi, pam mae cynulleidfaoedd yn fwy tebygol o wylio ffilm genre (fel ffuglen wyddonol)?**